

Hysbysiad archwilio

Hysbysiad o benodi o'r dyddiad ar gyfer arfer hawliau etholwyr

Cyngor Cymuned Llanfrothen

Blwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth 2025

1. Dyddiad cyhoeddi: 16 Mehefin 2025
2. Bob blwyddyn mae'r cyfrifon blyneddol yn cael eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Cyn y dyddiad hwn, mae gan unrhyw berson sydd â diddordeb gyfle i archwilio a gwneud copïau o'r cyfrifon a'r holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau ac ati sy'n ymwneud â nhw am 20 diwrnod gwaith ar rybudd rhesymol. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025, bydd y dogfennau hyn ar gael ar rybudd rhesymol ar gais i:

Huw Llwyd Rowlands, Clerc Cyngor Cymuned Llanfrothen, Y Goeden Eirin, Dolydd, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7EF

07957 513227

Cyngorllanfrothen@gmail.com

rhwng oriau 10:00 a 16:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener

yn dechrau ar 01 Gorffennaf 2025

ac yn gorffen ar 28 Gorffennaf 2025

3. O 15 Medi 2025, hyd nes y bydd yr archwiliad wedi'i gwblhau, mae gan Etholwyr Llywodraeth Leol a'u cynrychiolwyr hefyd:
 - yr hawl i holi'r Archwilydd Cyffredinol am y cyfrifon.
 - yr hawl i fynychu gerbron yr Archwilydd Cyffredinol a gwneud gwrthwynebiadau i'r cyfrifon neu unrhyw eitem ynddynt. Rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig o wrthwynebiad i'r Archwilydd Cyffredinol yn gyntaf. Rhaid rhoi copi o'r hysbysiad ysgrifenedig i'r cyngor hefyd.

Gellir cysylltu â'r Archwilydd Cyffredinol drwy: Archwiliadau Cyngor Cymuned, Archwilio Cymru, 1 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ neu drwy e-bost yn communitycouncilaudits@audit.wales.

4. Mae'r archwiliad yn cael ei gynnal o dan ddarpariaethau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Hawliau etholwyr o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

Y sefyllfa sylfaenol

Yn ôl y gyfraith, mae gan unrhyw berson sydd â diddordeb yr hawl i archwilio cyfrifon y cyngor. Os oes gennych hawl ac wedi cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau cynghorau lleol, yna mae gennych chi (neu'ch cynrychiolydd) yr hawl hefyd i ofyn cwestiynau i'r Archwilydd Cyffredinol amdanynt neu herio eitem o gyfrif a gynhwysir ynddynt.

Yr hawl i archwilio'r cyfrifon

Pan fydd corff llywodraeth leol wedi cwblhau ei gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol, rhaid iddo hysbysebu eu bod ar gael i bobl edrych arnynt. Ar ôl rhoi rhybudd rhesymol o'ch bwriadau, yna mae gennych 20 diwrnod gwaith i edrych trwy'r cyfrifon a'r dogfennau ategol. Byddwch yn gallu gwneud copïau o'r cyfrifon a'r rhan fwyaf o'r dogfennau perthnasol gan y corff. Mae'n debyg y bydd yn rhaid i chi dalu tâl copïo.

Yr hawl i ofyn cwestiynau i'r archwilydd am y cyfrifon

Dim ond cwestiynau am y cyfrifon y gallwch ofyn i'r Archwilydd Cyffredinol. Nid oes rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ateb cwestiynau am bolisiâu, cyllid, gweithdrefnau'r corff nac unrhyw beth arall nad yw'n gysylltiedig â'r cyfrifon. Rhaid i'ch cwestiwn fod yn ymwneud â'r cyfrifon sy'n destun archwiliad. Nid oes rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddweud a yw'n credu bod rhywbeth y mae'r cyngor wedi'i wneud, neu eitem yn ei gyfrifon, yn gyfreithlon neu'n rhesymol.

Yr hawl i wrthwynebu'r cyfrifon

Os ydych chi'n meddwl bod y corff wedi gwario arian na ddylent ei gael, neu fod rhywun wedi achosi colled i'r corff yn fwriadol neu drwy ymddwyn yn anghyfrifol, gallwch wrthwynebu i'r Archwilydd Cyffredinol drwy anfon 'hysbysiad o wrthwynebiad' ffurfiol, y **mae'n rhaid iddo fod yn ysgrifenedig** i'r cyfeiriad isod. Gallwch ofyn i'r Archwilydd Cyffredinol wneud cais i'r llysoedd am ddatganiad bod eitemau cyfrif o'r fath yn anghyfreithlon. Rhaid i chi ddweud wrth yr Archwilydd Cyffredinol pam rydych chi'n gwrthwynebu. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddod i benderfyniad ar eich gwrthwynebiad. Os nad ydych chi'n hapus â'r penderfyniad hwnnw, gallwch apelio i'r llysoedd. Rhaid i chi hefyd anfon copi o'ch hysbysiad at y cyngor ei hun.

Efallai y byddwch hefyd yn gwrthwynebu os ydych chi'n meddwl bod rhywbeth yn y cyfrifon y dylai'r Archwilydd Cyffredinol ei drafod gyda'r cyngor neu ddweud wrth y cyhoedd amdano mewn 'adroddiad budd y cyhoedd'. Unwaith eto, rhaid i chi roi eich rhesymau yn ysgrifenedig i'r Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad isod. Yn yr achos hwn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol benderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol fel arfer, ond nid oes rhaid iddo, roi rhesymau dros ei benderfyniad ac ni allwch apelio i'r llysoedd. Ni chewch ddefnyddio'r 'hawl i wrthwynebu' hwn i wneud cwyn bersonol neu hawliad yn erbyn y corff.

Os hoffech wneud cwyn neu hawliad personol, dylech fynd â'r cwynion hyn i'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth leol, Canolfan y Gyfraith leol, neu'ch cyfreithiwr. Efallai y byddwch hefyd yn gallu cwyno i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru os ydych chi'n credu bod Aelod o'r corff wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau. Gellir cysylltu â'r Ombwdsmon yn: 1 Old Field Rd, Pencoed, Pen-y-bont ar Ogwr CF35 5LJ, (ffôn: 0300 790 0203).

Beth arall allwch chi ei wneud

Yn hytrach na gwrthwynebu, gallwch roi gwybodaeth i'r Archwilydd Cyffredinol sy'n berthnasol i'w gyfrifoldebau. Er enghraifft, gallwch ddweud wrth yr Archwilydd Cyffredinol os ydych chi'n meddwl bod rhywbeth o'i le gyda'r cyfrifon neu am wastraff ac aneffeithlonrwydd yn y ffordd y mae'r cyngor yn rhedeg ei wasanaethau. Nid oes rhaid i chi ddilyn unrhyw derfynau amser na gweithdrefnau penodol. Nid oes rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol roi adroddiad manwl i chi o ganlyniad ei archwiliad.

Gair olaf

Rhaid i gyrrff llywodraeth leol, ac felly trethdalwyr lleol, dalu'r costau o ddelio â chwestiynau a gwrthwynebiadau. Pan fydd yr Archwilydd Cyffredinol yn penderfynu a ddylid mynd â'ch gwrthwynebiad ymhellach, mae un o gyfres o ffactorau y mae'n rhaid iddo eu hystyried yn cynnwys y costau a fydd yn gysylltiedig. Bydd ond yn parhau â'r gwrthwynebiad os yw er budd y cyhoedd i

wneud hynny. Os ydych chi'n apelio i'r llysoedd, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu am y weithred eich hun.

Os hoffech gysylltu â'r Archwilydd Cyffredinol, ysgrifennwch at: Archwiliadau Cyngor Cymuned, Archwilio Cymru, 1 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ.

